# Datblygu, cynnal a gwerthuso cynlluniau a threfniadau ar gyfer argyfwng

## Trosolwg

Mae’r safon hon yn ymwneud â datblygu, cynnal a gwerthuso cynlluniau a threfniadau ar gyfer argyfwng er mwyn lleihau, rheoli neu liniaru effeithiau achosion o argyfwng yn ogystal â darparu fframwaith ar gyfer adfer cymunedau yr effeithir arnynt gan argyfwng dros y tymor hir.

### Grŵp Targed

Mae’r uned hon yn cael ei hargymell ar gyfer y rheini sy’n gysylltiedig â datblygu, cynnal a gwerthuso cynlluniau a threfniadau ar gyfer argyfwng.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1.datblygu cynlluniau a threfniadau drwy ymgynghori â'r rheini yn eich sefydliad a phartneriaid eraill sy'n debygol o fod yn rhan o'r dasg o ymateb mewn argyfwng

2.cadarnhau nod, cwmpas ac amcanion gofynnol y cynlluniau a'r trefniadau
3.datblygu cynlluniau a threfniadau gan roi sylw i:
a.asesiadau risg perthnasol a nodweddion ardaloedd
b.lles grwpiau agored i niwed a'r gymuned yn gyffredinol
4.darparu fframwaith ar gyfer llywio, cydlynu a rheoli gan gynnwys:
a.gweithdrefnau sy'n rhoi cyfle i liniaru risg
b.gweithdrefnau i bennu a oes argyfwng wedi codi
c.rolau a chyfrifoldebau'r rheini sy'n ymateb
d.gweithdrefnau i roi gwybod i staff a rhoi trefniadau ymateb ar waith
e.darparu adnoddau (e.e. cyfarpar, cyfleusterau, cyllid)
f.darparu systemau gwybodaeth a chyfathrebu cadarn
g.trefniadau i rybuddio, rhoi gwybod a chynghori'r gymuned
5.codi ymwybyddiaeth o gynlluniau a threfniadau ar gyfer argyfwng (e.e. ymhlith y rheini sy'n ymateb, staff perthnasol a'r gymuned yn gyffredinol)
6.sicrhau bod hyfforddiant yn cael ei ddarparu i staff perthnasol neu bobl eraill
7.sicrhau bod cyfeiriad at ddarparu ymarferion er mwyn dilysu ac ymarfer cynlluniau a threfniadau
8.cadw cofnodion o benderfyniadau allweddol y cytunwyd arnynt yn y broses gynllunio gyda'r prif bartïon a rhyngddynt
9.cyflwyno cynlluniau a threfniadau yn glir, yn gryno ac mewn ffyrdd sy'n hyrwyddo dealltwriaeth
10.sicrhau bod uwch reolwyr a swyddogion gwneud penderfyniadau yn perchnogi cynlluniau a threfniadau
11.trefnu i ddosbarthu'r holl gynlluniau argyfwng neu rai ohonynt, lle y bo'n briodol
12.sicrhau bod systemau ar waith i ddiweddaru'r cynlluniau mewn ymateb i newidiadau yn y sefydliad
13.sicrhau bod cynlluniau'n cael eu hadolygu'n systematig yn unol ag asesiadau risg cyfredol, gwersi a ddysgwyd yn sgil digwyddiadau ac ymarferion, ac unrhyw newidiadau i ganllawiau a deddfwriaeth

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. pwysigrwydd cynnwys pawb yn y broses gynllunio sy'n debygol o ddefnyddio, neu o gael eu tywys gan, y cynlluniau a'r trefniadau a'r holl randdeiliaid perthnasol eraill
2. pa bryd y bydd angen cynlluniau a threfniadau ar gyfer cydweithio ag asiantaethau eraill (gan gynnwys asiantaethau gwirfoddol)
3. rolau a strwythur fforymau lleol a rhanbarthol ar gyfer cydweithio ar gynllunio ar gyfer argyfwng
4. sut mae cadarnhau nod, cwmpas ac amcanion y cynlluniau a'r trefniadau ar gyfer argyfwng
5. pwrpas cynlluniau cyffredinol a phenodol ar gyfer argyfwng
6. egwyddorion Rheolaeth Integredig mewn Argyfwng (IEM)
7. y cylch cynllunio ar gyfer argyfwng
8. yr asesiadau risg lleol, rhanbarthol a chenedlaethol sydd ar gael, a'u rôl wrth gynllunio ar gyfer argyfwng
9. tebygolrwydd y risg a chanlyniadau'r risg y mae'r cynllun yn cael ei greu ar ei chyfer
10. effaith bosibl yr achosion o argyfwng ar bobl yn eich maes cyfrifoldeb
11. effaith bosibl yr achosion o argyfwng ar yr amgylchedd
12. sut mae pennu'r elfennau o gynllunio ar gyfer argyfwng y gellir rhoi sylw iddynt drwy hyfforddiant neu ymarfer
13. adnoddau, seilwaith a chymunedau'r ardal leol

14.
yr anghenion gwybodaeth ar ôl argyfwng
15.
blaenoriaethau'ch sefydliad o ran darparu gwasanaethau
16.
dulliau o godi ymwybyddiaeth o gynlluniau a threfniadau ar gyfer argyfwng
17.
deddfwriaeth, rheoliadau a chanllawiau perthnasol sy'n ymwneud â chynllunio ar gyfer argyfwng

## Ymddygiadau

Isod rhestrir y prif sgiliau ac agweddau cyffredinol y mae angen eu cymhwyso.  Mae'r rhain yn glir/wedi'u hawgrymu yng nghynnwys manwl yr uned ac maent yn cael eu rhestru yma fel gwybodaeth ychwanegol.

1.sylw ar y gymuned
2.penderfynol
3.empathig
4.hyblyg
5.ymchwiliadol
6.meddwl agored
7.realistig

## Sgiliau

- dadansoddi
- cyfathrebu
- ymgynghori
- dadansoddi effaith
- rheoli gwybodaeth
- dylanwadu
- negodi
- trefnu
- ysgrifennu adroddiadau/cynlluniau
- blaenoriaethu
- datrys problemau
- rheoli prosiectau
- ymchwilio
- gosod amcanion

## Geirfa

Termau a ddefnyddir yn aml a sut dylid eu dehongli yng nghyd-destun NOS Paratoadau Sifil

Cymuned
Unigolion a sefydliadau mewn ardaloedd gan gynnwys oedolion, plant a phobl ifanc, pobl agored i niwed, cartrefi preswyl, busnesau ayb

Cynllun ar gyfer argyfwng
Cytundeb i gymryd cyfres o gamau sy'n ddealladwy i'r rheini sy'n cymryd y camau ac yn eu tywys wrth iddynt weithredu

Cynllun cyffredinol ar gyfer argyfwng
Un cynllun sydd â'r bwriad o ddelio ag ystod eang o achosion o argyfwng

Cynllun penodol ar gyfer argyfwng
Cynllun sydd â'r bwriad o ddelio â math penodol o argyfwng, lle na fydd y cynllun cyffredinol yn debygol o fod yn ddigonol

Rheolaeth Integredig mewn Argyfwng (IEM)
Ffordd o atal a rheoli achosion o argyfwng sy'n cynnwys chwe gweithgaredd allweddol – rhag-weld, asesu, atal, paratoi, ymateb ac adfer. Nod IEM yw meithrin mwy o allu i wrthsefyll yn gyffredinol a hynny yn wyneb ystod eang o heriau sy'n tarfu ar bethau. Mae'n gofyn am ymdrech gydlynol rhwng sawl asiantaeth.

## Cysylltiadau â SGC eraill